## DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

## GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (3 LLYS LLEWELLYN, PEN-YR-EGLWYS, LLANILLTUD FAERDREF, PONTYPRIDD) 2024

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r darn o briffordd, ac nid awdurdodir ei gau ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar 7 Medi 2023 o dan y cyfeirnod 23/0789/10 ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (3 Llys Llewellyn, Pen-yr-Eglwys, Llanilltud Faerdre, Pontypridd) 2024 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Gyhoeddus Pentre'r Eglwys, Campws Cymuned Garth Olwg, St Illtyds Road, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1908847.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 2 Mai 2024, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

## THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (3 LLYS LLEWELLYN, PEN-YR-EGLWYS, LLANTWIT FARDRE, PONTYPRIDD) ORDER 2024

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the Rhondda Cynon Taf County Borough Council on 7 September 2023 with reference 23/0789/10 described in Schedule 2 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (3 Llys Llewellyn, Pen-Yr-Eglwys, Llantwit Fardre, Pontypridd) Order 2024 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge between normal office hours at Church Village Public Library, Garth Olwg Community Campus, St Illtyds Road, Church Village, CF 38 1RQ, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1908847.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 2 May 2024 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**ATODLEN 1**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn afreolaidd ei siâp o briffordd sydd ar ochr ddwyreiniol Pen-yr-Eglwys gyferbyn â'r gyffordd sy'n arwain at Heol Bryn Heulog a'r tu cefn i'r eiddo a elwir 3 Llys Llewellyn, Llanilltud Faerdref, Pontypridd, sy'n 11 o fetrau yn y man hiraf ac yn 4.5 metr yn y man lletaf.

**ATODLEN 2**

**Y Datblygiad**

Newid defnydd tir i estyn cwrtil gardd y tu cefn i'r eiddo a elwir 3 Llys Llewellyn, Llanilltud Faerdref, Pontypridd, CF38 2HQ.

**SCHEDULE 1**
**(All measurements are approximate)**

**Length of highway to be stopped up**

An irregular shaped length of highway located on the eastern side of Pen-Yr Eglwys opposite the junction leading to Heol Bryn Heulog and to the rear of the property know as 3 Llys Llewellyn, Llantwit Fardre, Pontypridd, with a maximum length of 11 metres and a maximum width of 4.5 metres.

**SCHEDULE 2**

**The Development**

Change of use of land to extend garden curtilage to the rear of the property known as 3 Llys Llewellyn, Llantwit Fardre, Pontypridd, CF38 2HQ.